Cyfres yr 20fed Ganrif

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

yr. 16. Rhif 9.] MEDI, 1916 [Pris 2c

CYNWYSIAD

Darlun a Gwers. Arthropes.
Ein Dyledswydd ar ol y Rhyfel. Josiah Jones, Ysw., Garthowen.
Sair o For y Canoldir. Ben. Davies, R.A.M.C.
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gobei iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWI Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

T.J.J., Cloughfield; D.J.G., Ferndale; Parch. J.G.D., Banbridge Mrs. W., Cwmtegryd; D.H.J., Grenada; J.J., Aberaman; Parch. T.M. Middleton; J.E., Nantymoel; E.C.T., Caerdydd; Parch. S.E.B., Crumli

Geiriadur Newydd Spurrel

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynhwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES	IOLO MORGANWG
MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD
ALUN	Dr. OWEN PUGHE
SION CENT	GWAITH GLANYGORS

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSU

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1916. [CYF. XVI. RHIF 9.

DARLUN A GWERS.

GAN ANTHROPOS.

I.

Y MAE un o hen arlunwyr y ganrif o'r blaen wedi desgrifio perfformiad o'r ddrama anfarwol honno a adwaenir wrth yr enw 'Punch and Judy Show.' Nid oes odid blentyn a fagwyd mewn pentre yn Nghymru nas gwelodd y rhyfeddod hwnnw, rywbryd, a dichon iddo chwareu 'truant' ar y pryd, wedi ei hud-ddenu gan y 'cymeriadau' sydd yn 'fyd-enwog.' Pwy oedd awdur 'Pwns' a 'Judi,' tybed? Dylasai gael cofgolofn yn un o leoedd amlycaf y deyrnas. Rhoddodd fod i un o'r pethau doniolaf, a gwerthfawrocaf a feddwn fel adloniant, a difyr hwyl.

II.

Ni anghofiwn y diwrnod pan welsom Pwns a Judi y waith gyntaf. Mor ysmala oedd eu hwynebau, ac mor ddigri oedd yr ymddiddanion! Yr oeddym wedi ein cyfareddu gan y ddrama honno ar gongl y stryd. Nid ydyw yn 'ymddangos' mor fynych yn y blynyddau diweddaf. Dichon fod y 'darluniau byw' wedi ei gyrru i'r cysgod am ennyd, ond daw ei 'dydd' eto. Y mae mwy o athrylith yn nrama Pwns a Judi nag a welir yn y darluniau lledrithiol a ddangosir yn y cyfnod hwn. Yn bersonol, gallaf gyffesu mai un o'r pethau mwyaf dedwydd gennyf, pan yn ymweled, yn achlysurol, â dinas Lerpwl, ydyw treulio hanner awr ar balmant Stryd y Calch i wylio perfformiad yn yr awyr agored o fy hen ffrynd—y Pwns, a'i gymdeithion mwyn! Gwelir torf o blant o'i amgylch bob amser; ac yn y dyrfa, yn fynych, gwelir hen bobl yn chwerthin yn galonog, ac yn teimlo eu hunain yn myd y boreu a'r wawr. Dyna a wna athrylith. Nid ydyw ei hudoliaeth

yn heneiddio. Sawl cenhedlaeth sydd wedi bod yn dal ei hanadl wrth wylio drama Pwns a Judi? Ond erys y chwareu yn ei swyn i bob cyfnod—

> 'Men may come, and men may go,
> But I go on for ever.'

III.

Bu gennym gyhoeddiad, un adeg, a elwid y 'Pwns Cymraeg,' ac un doniol iawn oedd hwnnw! Ni fu ei oes ond ber, ac un rheswm am hynny ydoedd, nad ydyw Cymry yn hoffi pethau ysgeifn a chellweirus. Rhaid i'n llenyddiaeth fod yn sobr a difrifol, a gwae y sawl a ysgrifenno yn 'ysgafn.' Nid ydyw hynny yn ddim amgen na pheri i'r Philistiaid chwerthin. Ond paham y rhaid cyfyngu y 'chwerthin' i'r Philistiaid? Onid ydyw hynny yn un o freintiau pob bywyd rhydd a naturiol? Ac eto, yn Nghymru, y mae'r dyn a fedr wneyd i bobl 'grio' yn fwy cymeradwy na'r sawl a grea ambell chwerthiniad iach. Y mae rhyw nifer o gyhoeddiadau tebyg i'r 'Pwns Cymraeg' wedi ymddangos yn ddyspeidiol yn Nghymru, ond ni chawsant ddigon o gefnogaeth i barhau. Nid ydyw *humour*, heb son am watwareg, yn cael eu gwerthfawrogi gan ein cenedl. Yr ydym yn rhy groendeneu, ac yn 'digio' yn ebrwydd; ac nid gweddus yn ein golwg ydyw 'cablu urddas.' Gyda'r Saeson y mae yn wahanol. Y maent hwy yn ddigon croendew i ddal pethau o'r fath; ac yn wir, i'w mwynhau yn anghyffredin. Dyna guddiad cryfder y *Punch* Seisonig. Ac ni fu erioed yn fwy poblogaidd nag ydyw yn y misoedd hyn. Croesawir ei ddarluniau dihafal, a'i ddesgrifiadau digrifol, ond diwenwyn, gan bob dosbarth a gradd.

IV.

Ond nid son am lenyddiaeth ysgafn a nwyfus oedd ein bwriad, er ein bod yn credu mai nid dawn esgymmun ydyw eiddo y sawl a fedr ysgrifennu pethau sydd yn diddanu ac yn adloni eu darllennwyr. Yr un pryd, ni a gynghorem unrhyw lenor ieuanc sydd yn berchen y ddawn i ymarfer ag ysgrifennu yn Saesoneg, canys yn yr iaith honno y gall efe ddisgwyl marchnad, a thal dyladwy am ei nwyddau llenyddol. Mi wn am un neu ddau o lenorion yn Nghymru a allasent—pe wedi meistroli yr iaith Seisonig—sefyll ar yr un rhandir a W. W. Jacobs, Pett Ridge, neu Jerome K. Jerome.

V,

Eithr am yr hen ddarlun o'r 'Punch and Judy Show' yr oeddwn wedi arfaethu son, er fy mod wedi gwneyd *flank movement* at y pwnc. Welsoch chwi'r darlun hwnnw? Saif y theatr fechan, yr hon sydd ar ffurf 'cas cloc' wyth diwrnod, yn ymyl y ffordd, o dan gysgod coeden dewfrig. Gerllaw y mae'r fynedfa i'r palas sydd yn ymgudd-io yn y coed. Gwelir plant y boneddwr a phlant y bwthynod

gwledig yn llygadrythu ar y perfformiad. Nid oes un canolfur o wahaniaeth rhwng bonedd a gwreng. '*One touch of nature makes the whole world kin.*' Mor hudolus yr olygfa! Yr hen wr wrth ei ffon, a'r bachgen bochgoch, yn curo eu dwylaw wrth edrych ar gampau rhyfedd, a gwrando lleisiau croch, a sylwadau digri Pwns, a chyfarthiadau selog Tobi, y ci!

Y mae'n amlwg ar wynebau y gynulleidfa eu bod yn 'credu pob dim.' Nid ydynt yn gofyn cwestiynau—dim ond mwynhau—Iddynt hwy yr oedd yr oll yn fyw—Tobi, Judi a Pwns.

VI.

Ond, sylwch i gongl y darlun, a chwi a welwch un bachgen wedi ymlusgo ar ei ddeulin, ac yn edrych o dan y gorchudd. Beth a welodd efe? Gwelodd y dirgelwch; nid amgen, y dyn oddi fewn i'r 'câs cloc' yn symmud y 'cymeriadau,' ac yn taflu ei lais i'r naill a'r llall, yn ol yr alwad. Do, gwelodd y bachgen hwnnw ormod er ei les—aeth y tu cefn i'r *show*. Y mae ei wyneb yn bradychu y ffaith. Nid ydyw efe yn chwerthin gyda'r dorf. Nis gall wneyd hynny mwy. Y mae cyfnod 'credu pob dim' wedi mynd trosodd am byth.

VII.

'Dyna fachgen chwilfrydig,' ebai ambell un, wrth edrych ar y darlun. 'Mae hwna wedi ffeindio'r dirgelwch. Gewch chi weld—mi ddaw y bachgen yna yn ei flaen. Mae defnydd 'beirniad' ynddo—dyn fydd yn chwilio pethau allan, ac yn dangos y gwahaniaeth rhwng y gwir a'r gau—y ffug a'r gwirioneddol.'

VIII.

Hwyrach, yn wir. Ond syniad arall fydd yn fy meddiannu i wrth graffu ar y darlun. Nid medr y bachgen oedd yn ymlusgo dros y glaswellt i weled y *machinery*, ond y ffaith oedd yn dilyn yn ei hanes. Ni fyddai yn 'fachgen' byth mwy! Ni fedrai sefyll o flaen y *show* gyda'i gyfoedion, a chwerthin yn iach wrth weled, a gwrando y stori. Gwyddai pwy oedd yn 'gwneyd' y cyfan, a phwy oedd bia y 'llais' oedd yn cynrychioli y 'cymeriadau' ar y llwyfan. Wrth foddio ei chwilfrydedd, collasai y peth hwnnw sydd mor hanfodol i blentyn a dyn—*the sense of wonder*—y ddawn i ryfeddu, i edmygu, ac i ymgolli mewn mwynhad.

IX.

Dyna hanes y 'beirniad' yn mhob cylch. Nid ydyw yn foddlawn i edrych ar bethau, rhaid iddo gael eu dad-elfennu—mynd y tu cefn i'r *show*. Ond rhaid talu'r dreth. Ymedy y gyfaredd, a'r swyn. Nis gellir ymgolli mewn gwynfyd, megys cynt. A cholled anadferadwy ydyw honno. Goleuir y llygaid, ond ymedy'r weledigaeth. Y mae pob gwaith prydferth, pob darlun a chân yn meddu rhyw gyf-

rinach. Hud a lledrith ydyw gwisg pob gogoniant mewn llenyddiaeth. Y mae egwyddorion y 'Punch and Judy Show' yn cael ei gwireddu gyda holl gynyrchion celf. Rhaid eu mwynhau ar eu telerau eu hunain. Gwell ydyw sefyll, neu eistedd, o flaen y darlun, os am gadw'r gyfaredd yn y galon. Fel yna y ceir yr argraff ddyladwy. A phan yn cyfarfod ag ambell 'feirniad' llenyddol, ac yn gwrando arno yn 'elfennu' beirdd a barddoniaeth, byddaf yn adgofio yr hen ddarlun o'r 'Punch and Judy,' ac yn dweyd wrthyf fy hun—'Y mae hwn yn debyg i'r bachgen a welir yn y darlun, yn ymlusgo ar ei dorr, er mwyn gweled a gwybod beth sydd y tu cefn i'r *show*.

EIN DYLEDSWYDD AR OL Y RHYFEL.

(*Anerchiad draddodwyd gan Josiah Jones, Ysw., Garthowen, Llywydd Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, yn Rhydygwin, Sir Aberteifi, Awst 2, 1916.*)

Rai misoedd yn ol, pan yn ceisio meddwl pa bwnc fyddai fwyaf buddiol a phwrpasol i mi i siarad yma heddyw, ymresymwn â mi fy hunan fel hyn. Yn mis Awst nesaf (ac yr oedd Awst yn edrych yn mhell yn y dyfodol y pryd hwnw), bydd y rhyfel ofnadwy sydd yn awr yn blino gwledydd Ewrop wedi terfynu, neu o leiaf ar derfynu, felly y pwnc y gweddai i mi ymwneud âg ef a fydd,

"EIN DYLEDSWYDD FEL CRISTIONOGION AR OL Y RHYFEL,"

ond fel y dywed Burns,

"*The best laid schemes of mice and men*
Gang aft agley."

Er gwaethaf y modd nid yw y cledd eto wedi ei roddi yn y wain, ac am hyny nid yw fy nhestun mor amserol ag hyderwn y byddai.

Pan yn pryderu ynghylch y mater hwn ychydig ddyddiau yn ol bum ar fedr cymeryd i fynu rhyw bwnc arall, ond yn hytrach na bod fel ton y mor, "yr hon a deflir ac a chwelir gan y gwynt," penderfynais lynu wrth fy nhestun. Cadarnhawyd fi yn fy mhenderfyniad gan ddywediad o eiddo Mr. Lloyd George, pan draethodd y gwr enwog hwnw ei farn "Fod

Y WAWR YN Y GOLWG."

Wel! meddwn wrth fy hunan, os yw y wawr yn y golwg, gallwn ddisgwyl cyn hir yng nghwrs natur weled y dydd, sef dydd buddugoliaeth i Brydain a'i hachos cyfiawn; a thranoeth i hyny bydd y rhyfel wedi darfod a heddwch wedi ei ail-sefydlu. Os felly, ni fydd fy sylwadau yma heddyw wedi'r cwbl yn an-amserol, ac yn wir nid wyf yn credu fod ystyried beth a fydd ein

dyledswydd yforu byth yn anamserol.

Mae Duw wedi planu rhyw reddf mewn dyn i edrych ymlaen i'r dyfodol, ac i geisio deall cwrs y byd fel y gall ymbarotoi gyferbyn ag amgylchiadau y dyfodol. Am esgeuluso gwneud y defnydd goreu o'u galluoedd yn y cyfeiriad yma, beiwyd yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid gan yr Iesu, pan geryddodd hwynt am beido deall

"ARWYDDION YR AMSERAU."

Rhaid cael cynllun neu blan o'r hyn a garem wneud mewn unrhyw gyfeiriad cyn y gallwn lwyddo yn ein hanturiaeth. Fel y dywedir yn Llyfr y Diarhebion, "Darpara dy orchwyl oddiallan a dospartha ef i ti yn y maes, ac wedi hyny adeilada dy dŷ." Rhaid i mi addef nad oes genyf un weledigaeth neillduol, ond fel Llywydd y Gymdeithas am y flwyddyn eto dywedaf, gwnaf fy ngoreu.

Wel, er fod pethau yn edrych yn dywyll iawn ar lawer adeg, fe ddaw diwedd ar y rhyfel alaethus presenol. Fe dry y wawr yn ddydd; a pha fath ddydd fydd hwnw? "dranoeth i'r rhyfel," ar ol nos gelyniaeth a thywallt gwaed. O! mor ddymunol fydd dydd tawel o heddwch a chydgord eilwaith rhwng y gwledydd. Bydd yr ystorm wedi cilio, ond bydd myrdd o flodau tecaf ein gwlad wedi eu distrywio, neu ynte wedi eu ysigo, ac yn gogwyddo eu penau mewn tristâd. Bydd yna fylchau lawer ar aelwydydd ein gwlad na ellir byth eu llanw. Bydd llawer o'n gwyr dewraf a goreu yn dychwelyd o faes y gad yn gloffion ac yn anafusion, ac yn analluog i gymeryd y lle adawsant yn myddin llafur.

Bydd yna hefyd luoedd o rieni oedranus, o weddwon, ac o blant amddifaid, wedi colli y rhai y dibynent arnynt am gynhaliaeth ac amddiffyn. Bydd nifer aruthrol y rhai mewn galar a chaledi yn creu sefyllfa na welwyd ei bath mewn unrhyw wlad, os yn y byd, erioed o'r blaen, a bydd

Y RHAN DDYLAI YR EGLWYSI GYMERYD

yn yr argyfwng yn gyfle iddynt i wneyd Cristionogaeth yn fwy gwirioneddol a *real* nag yn yr amser cyn y rhyfel. Bwriadaf nodi allan yr hyn a ystyriaf fydd ein dyledswyddau fel Cristionogion ar ol adferiad heddwch. Rhanaf y dyledswyddau hyn i dri dosparth, a galwaf hwynt er mwyn hwylusdod ac eglurder, (1) Dyledswydd y llaw a'r llogell, (2) Dyledswydd y pen a'r deall, (3) Dyledswydd y galon a'r ysbryd. Nid yw y rhanau hyn yn annibynol oddiwrth eu gilydd; nid ydynt yn *water-tight compartments.* Yn wir, nid wyf yn credu y gellir rhanu dyledswyddau Cristionogol heb rhyw gymaint o *over-lapping.* Rhaid cael yr elfen o gariad wrth wraidd yr oll.

Galwaf y ddyledswydd gyntaf yn

"DDYLEDSWYDD Y LLAW A'R LLOGELL."

Pan fo cymdeithas yn gorwedd yn ei gwaed a'i chlwyfau, fel y gwr hwnw gynt yr ymosodwyd arno gan ladron rhwng Jerusalem a Jericho, bydd angen *first-aid* arni. Bydd eisiau *llaw* i rwymo ei harchollion, a *llogell* i dalu am olew ac am letty. Ni fyddai geiriau caredig o enau y Samaritan o un diben i'r gwr archolledig. Yr olew, y gwin, yr anifail, y ddwy geiniog, a'r llety oedd y pethau angenrheidiol o dan yr amgylchiadau. Yn wahanol i'r Samaritan trugarog, yr hwn a dosturiodd wrth ddyn dieithr hollol iddo, byddwn ni dan rwymau trymion i'r dioddefwyr o achos y rhyfel, ac ni fydd yr oll allwn wneyd drostynt ond ad-daliad o'n dyled iddynt. Yna, ar ol i gyfnod y *first-aid* fyned heibio, geilw Cristionogaeth arnom i hyrwyddo a chefnogi darpariaethau er cynhaliaeth y dioddefwyr. Nid digon adfer; rhaid

cynal. "A pha beth bynag a dreuliech yn ychwaneg mi a'i talaf i ti." Dyna oedd iaith y Samariad, a dyna yw iaith Cristionogaeth o hyd. Ysbryd anniolchgar, ac anghydnaws hollol ag eiddo Crist, a fedrai wrthwynebu y mesurau anghenrheidiol at gynal y rhai a anafir ac a drallodir gan y rhyfel.

Credaf y byddwn yn unfrydol yn cydnabod ein dyled i'r milwyr dychweledig ac i'r dioddefwyr, ond y mae perygl mewn unfrydedd. Yn rhy aml,

GWAITH PAWB, GWAITH NEB,

dyled pawb, dyled neb ; ac mor aml a hyny, yr esboniad a roddir ar ddyledswydd pawb yw—dyledswydd rhywun arall, rhywun mwy abl, rhywun mwy arianog, unrhyw un heblaw ni ein hunain.

Nid dyna ysbryd Cristionogaeth. Y mae dyledswydd y llaw a'r llogell yn gorphwys ar bob un o honom, o'r cyfoethocaf i'r tylotaf—pob un yn ol y graddau y byddo wedi ei ddonio, a medr llaw neu a dyfnder poced, a gwyn fyd y sawl a gyflawno ei ddyledswydd mewn modd teilwng.

Galwaf yr ail ddyledswydd yn

"DDYLEDSWYDD Y PEN A'R DEALL."

Dwg adferiad heddwch yn ol i'n mysg ryw dair neu bedair miliwn o wyr fydd wedi myn'd trwy dreialon a chyfyngderau tuhwnt i'n dychymyg, ac yn ddiamheu bydd y treialon a'r cyfyngderau hyny wedi gwneyd argraff arhosol ar eu cymeriadau. Bydd lefain eu profiad a'u hunanaberth hwy yn sicr o gyfnewid ysbryd y genedl ac o greu chwyldroad mewn cylchoedd gwleidyddol a chrefyddol. Er ei bod yn amhosibl dyfalu beth fydd dylanwad y rhyfel a dychweliad y milwyr ar arferion a moesau cymdeithas, gallwn fod yn sicr na fydd dim yn aros yn hollol fel y bu.

Bydd dynion ieuainc sydd yn awr yn y ffosydd yn siwr, o herwydd eu rhifedi a'u profiad, o gymeryd rhan amlwg ym mudiadau y dyfodol er da neu er drwg.

"DYLEDSWYDD Y PEN A'R DEALL"

fydd gwneud ein rhan i gynorthwyo, neu i wrthwynebu, y mudiadau, yn ol fel y barnwn yn oreu er lles cymdeithas. Ar ol ymdrech hunanaberthol ein milwyr yn y rhyfel cyfiawn presenol, ac ar ol i safon bywyd a moesoldeb gael ei chodi yn ein gwlad, y mae yn bosibl y daw ad-weithiad *(re-action)*. Gwyddis fod peth felly wedi digwydd yn hanes Prydain cyn hyn. Ar ol i dân brwdfrydedd y milwyr Piwritanaidd o dan Cromwell i losgi allan, syrthiodd y genedl yn ol i bydew o anfoesoldeb a phechod yn nheyrnasiad Siarl II. Rhag i beth fel hyn ddigwydd eto, ein dyledswydd fydd ceisio deall tuedd pob mudiad, a gofalu na fo gwrthglawdd moesoldeb yn cael ei fylchu gan ddiluw pechod.

Ar y tu arall, os mai cyflymu camrau y genedl i gyfeiriad rhyddid a chyfiawnder fydd tuedd y mudiadau newyddion, geilw Cristionogaeth arnom i beidio glynu wrth draddodiadau'r tadau, ond i osod heibio ein harafwch a'n ceidwadaeth ac i symud ymlaen. Cyfyd cwestiynau ynglyn a hawliau llafur, ynglyn a dosraniad y tir, ac ynglyn ag addysg, a'n dyledswydd fydd rhoddi ystyriaeth ddi-ragfarn i'r pynciau hyn ac yna er penderfynu yn unol a'r hyn gredwn yw Dysgeidiaeth Crist Ei hunan. Fel y dywed yr Hybarch R. J. Jones, Aberdar, yn YMOFYNYDD Gorphenaf, "Peidiwn bod yn rhy frysiog yn ein casgliadau. Ceisiwn ddysgu gwersi buddiol oddiwrth fethiantau y gorphenol, a gwneyd llwybr y dyfodol yn fwy llyfn a gwastad, fel na byddo i gynnifer o'r fforddolion syrthio i bydewau pechod ar eu taith."

DYLEDSWYDD Y GALON A'R YSBRYD.

Ar ol i dduwies heddwch ddyfod

yn ol unwaith eto i Ewrop, bydd yn ddyledswydd arnom i wneyd ein rhan i sicrhau na fydd i'r byd golli ei gwenau byth mwy. Ond pa beth raid i ni wneyd er cadw duwies fwyn heddwch i wenu arnom? A ydyw gwaeddi Heddwch! Heddwch! fel y gwneir mewn eisteddfod, yn ddigon? Rhaid dwyn y galon a'r ysbryd i'r gwaith. Nid ystad rwydd i'w chyraedd a'i chadw yw heddwch. Er mwyn ei chyraedd a'i chadw, credaf fod dau beth yn wir angenrheidiol, sef

Rhyddhau yr Eglwysi a Phuro Cymdeithas.

Pan eir i ysgrifenu hanes yr ugain mlynedd diweddaf a'r achosion sydd wedi arwain i fyny i'r rhyfel presenol, y mae yn amlwg y ceir allan fod eglwysi Cristionogol Ewrop wedi methu er gwaethaf y modd i raddau pell yn eu cenhadaeth. Yn lle bod yn ardd cariad a heddwch ac yn esiampl i'r cyfandiroedd ereill, wele Ewrop heddyw yn anialwch llawn o elyniaeth a rhyfel.

Y mae y rhan fwyaf o eglwysi Ewrop yn rhai sefydledig—y maent mewn cysylltiad a'r wladwriaeth, ac felly y maent wedi gwerthu eu genedigaeth-fraint ysbrydol am seigiau bywoliaeth ac urddas bydol. Os na fydd yr ysbrydol yn cael ei le dyladwy mewn eglwys neu mewn gwlad, ni thelir sylw i'r gwan, er i'w achos fod yn gyfiawn, tra y rhoddir parch i'r cadarn heb fod ganddo ddim i'w gymeradwyo ond ei gryfder. Felly bydd yn ddyledswydd arnom i weled fod bywyd ysbrydol yr eglwysi yn cael rhyddid a chwareu teg, ac ni all gael rhyddid a chwareu teg tra byddo yr eglwysi yn rhwym wrth y wladwriaeth. Yr ydym ni yng Nghymru wedi symud yn mlaen eisoes yn y cyfeiriad hwn, ond ni bydd Heddwch yn ddiogel nes i holl eglwysi Ewrop ddod yn rhydd.

Puro Cymdeithas.

Nid mewn bod yn bechadurus o ddrwg y mae y perygl i'r rhan fwyaf o Gristionogion, ond mewn bod yn ddi-ddim i ddaioni neu yn ddi-dda i neb ond iddynt hwy eu hunain. Yn y byd naturiol, rhaid cael halen i wneyd pethau yn bur ac yn beraidd, ac heb halen Cristionogaeth ni ellir puro cymdeithas. Yn awr, halen Cristionogaeth yw buchedd ac esiampl dda, ac y mae hwn yn rhy brin o lawer y dyddiau hyn. Gallwn feddwl fod llawer o

Offeiriaid a Lefiaid ein Dyddiau Ni

yn tybied fod peidio gwneyd drwg, hyny yw cadw yn rhydd oddiwrth "*Sins of commission*" yn ddigon iddynt hwy. Na! nid oes haner digon o halen mewn Cristionogaeth fel yna i gadw cymeriad y dyn eu hunan yn oilin o beraidd, heb feddwl am buro cymdeithas o amgylch iddo. Cofier mai pechodau athrawon yw athrawon pechodau, ac y mae yn ddyledswydd ar bob Cristion i beidio colli un cyfle i wneyd cymwynas i'w cyd-ddynion, gan mai dyna'r unig ffordd i rwymo cymdeithas ynghyd yn nghwlwm Cariad a Thangnefedd.

Efallai eich bod yn sylwi nad wyf wedi son fawr am Dduw yn fy anerchiad, ond fel y dywed y Parch. R. J. Jones yn yr erthygl wyf wedi ddifynu yn barod,

"Nid Duw, ond Dyn, sydd wedi Achosi y Rhyfel"

—dyn uchelgeisiol, trachwantus, a drygionus. Nid oes eisieu newid Duw. Ynom ni y mae y drwg; heb fod yn bobl dda ni allwn fod yn bobl heddychol. Dywed y Beibl, "Nid oes heddwch, medd yr Arglwydd, i'r rhai annuwiol." Felly, tra bo annuwioldeb yn y byd ni ellir cael perffaith heddwch. Ofnaf gan hyny na ellir dwyn y mil blyn-

yddoedd oddiamgylch trwy waeddi Heddwch! Heddwch! na thrwy arwyddo deisebau. Rhaid mynd yn ddyfnach na hyna. Rhaid diwreiddio cenfigen a digofaint, a rhoi chwareu teg i gariad brawdol i flodeuo ac i ffrwytho. Rhaid gwneud pob un o honom yn well dynion, a thrwy hyny daw *cymdeithas yn bur.* Yna gall cymdeithas bur, trwy gyfrwng llywodraethau gwerinol, sicrhau heddwch. Gadewch i ni, un ac oll, ynte wneyd penderfyniadau newyddion i ddwyn heddwch a chysur i bob aelwyd a fydd yn ein cyraedd. Yn ngeiriau y bardd Seisnig—

There is one road to peace, and that is truth.

GAIR O FOR Y CANOLDIR.

(*Parhad.*)

Fe gofia pob un fu yn Malta yn ystod tymor Hydref, 1915, am y lluaws cleifion yn pentyrru yma ddydd a nos. Bu pawb ar eu goreu drostynt, a chwyn pawb oedd na fuasent yn alluog i wneyd mwy drostynt, ond mae'n dda meddwl mai ychydig iawn mewn cymhariaeth i Ryfel South Africa fu farw oddiwrth y twymynon enbyd. Er medrusrwydd y meddygon a thriniaeth y *nurses*, marw wna rhai, ond mor dorcalonus yw, yn neillduol ar ol cael eu cludo yn ddiogel o faes y gad i afael pob chwareu teg fedrai diwylliant meddygol roi iddynt.

Pobl ddyddorol iawn oedd y Maoris yma; yr oeddynt yn fechgyn goleuedig iawn y rhan fwyaf o honynt, wedi bod yn yr ysgolion ac hyd yn od y Brifysgol yn New Zealand, ac yr oeddent mor uchel eu moesau a'u gwareiddiad ag unrhyw genedl o dan y faner. Ac am eu dewrder, cofier mai hwy yn unig welodd y mor yn y "Narrows" o goppa Sedd-El-Bahr.

Yr oedd dau o'r Maoris yn yr ysbytty yr un adeg, ac yn y gwelyau nesaf at eu gilydd; yr oedd y ddau o'r un enw. Cafwyd allan mae'r tad a'r mab oeddent. Wrth ofyn i'r hynaf paham ei fod mor awyddus am ddyfod i gymeryd rhan yn y frwydr, gan nad oedd yn ei ieuenctyd, atebodd ar unwaith, "Mae fy nhad innau hefyd ar hyn o bryd ar y Peninsula yn fyw ac yn iach." Yr oedd tair cenhedlaeth o honynt yn ymladd dros yr Ymherodraeth, a'r ddwy genhedlaeth ieuangaf fu y cyntaf i gael twymyn.

Cenedl arall a wnaeth lawer drosom oedd yr Iddewon, ac yr oedd corff o honynt o dan yr enw "Zion Mule Corps" yn gweithio ar y Peninsula, nes enill edmygedd pawb drwy eu dewrder. Bu llawer o honynt yma pan yn glaf a chlwyfus. Yr oeddent ar ddechreu y rhyfel wedi cael eu carcharu gan y Tyrciaid, yn yr ymherodraeth y trigent ar y pryd. Drwy rhyw fodd neillduol daethant i Alexandria, a ffurfiwyd y llu yno. Ni fedrent siarad Seisnig, tra medrai rhai siarad Ffrancaeg, ac yn aml mewn Ffrancaeg bratiog y medrai meddygon ymddiddan â hwynt. Eu gwaith, fel awgrymir, oedd gyru'r *mules* i fyny a nwyddau angenrheidiol i'r *Firing Line.* Gwyr

pawb fod y mulyn yn greadur o gryn *individualism* ar yr adeg oreu, ond pan oedd tân y gelyn a thwrf magnelau yn ei gynhyrfu, nid oedd ar ei oreu, ond mae'r gair roddir i'r bechgyn hyn yn un uchel iawn. Yr oeddent mor hunan feddianol a phe baent mewn *caravan* ar y *desert.* Yr oedd un bachgen ieuanc—Iddew o Rwssia—yma heb fedru naill na Ffrancaeg na Seisneg. Yr oedd ganddo lyfr Hebraeg, ac felly o angenrheidrwydd yr Hen Destament. Ni wyddwn ond ychydig Hebraeg, ond medrwn ddeall digon i ddarllen y Salm gyntaf. Yr oedd yn syn ganddo glywed estron yn darllen ei iaith sanctaidd.

Fel pob Iddew, nid oedd yn adrodd y gair Iaweh—Addonesh, meddai. Yr oedd y prif enw yn rhy gyssegredig. Daethom yn gyfeillion trwyadl, ac yn aml byddai yn dyfod i fy ngweled ar ol myned i'r "*Convalescent Camp.*" Ei brif ddymuniad oedd myned i Brydain—cartref rhyddid, a gwn iddo gael ei ddymuniad.

Cadwyd "Dydd Gwyl Dewi" yma mewn hwyl a chyda blas. Drwy garedigrwydd Cymraes sydd yn berchenog ar un o'r prif fasnachdai yma, gwahoddwyd pob Cymro i dreulio prydnawn Gwyl Dewi yn ei thŷ, a chan fod yr hin fel mis Awst ar lan y mor yn Lloegr, cynhaliwyd y cyfan yn yr awyr agored. Bu yn ymdrech go galed ar ran rai o honom gael cyfleustra i fyned. Yn y rhan yma o'r ynys, 'roedd tua haner cant, a'r rhan fwyaf yn gleifion, yn aros am gerbydau 'roedd yr awdurdodau wedi addaw, er ein cludo i'r wledd tua saith milldir oddiyma. Ar y funud olaf fe'n hysbyswyd fod yr awdurdodau wedi gorfod newid y drefn yngylch cerbydau, a bod yn rhaid i ni fyned yno goreu medrem. Nid oedd hyn yn myned i dori calon Cymry, er fod y mwyafrif o honynt yn yr *hospital*, ac felly heb fodd i gael cerbydau. Drwy garedigrwydd un o oruchwylwyr y Y.M.C.A. ac un neu ddau arall, cafwyd modd i gludo pob un i'w wyl.

'Roedd hen gyfeillion yn cyfarfod a'u gilydd! 'Roedd Cymru yn yr awel. 'Roedd yr awen yn ei grym a'r alawon yn nofio'r awelon, a ninau yn eistedd yn nghysgod yr *orange trees* oedd pryd hyn yn llawn o ffrwyth, ac yn gollwng ein breuddwydion tuag adref lle 'roedd miloedd o blant Cymru yn talu eu gwarogaeth i Ddewi Sant. Cafwyd gwledd di-ail o ddanteithion, a theimlodd pawb fod Dewi wedi cael ei anrhydeddu gan ei blant yn y modd goreu yn Malta. Cawsom y fraint, dri mis yn ddiweddarach, o gael gwledd eto gan yr un foneddiges, a'r tro hwn eto cafwyd groesaw gwir Gymreig, a threuliwyd amser rhagorol gan tua dau gant o honom.

Dylid rhoi ychydig newydd am waith ardderchog y Y.M.C.A. ar yr ynys. Mae wedi bod o werth amrhisiadwy fel lle i ni gyfarfod a'n gilydd, a chael cyfleusterau i weled y newyddiaduron o gartref a'r newyddion diweddaraf ynglyn a'r rhyfel. Dyddorol crybwyll mai dau o Sir Gaerfyrddin sydd yn gyfrifol am oruchwyliaeth y Y.M.C.A. *tents* yn Malta, tra mae ganddynt lu o weithwyr yn mhob *camp*, y rhan fwyaf o honynt yn weinidogion wedi gwirfoddoli dyfod allan i wneyd eu rhan, ac y maent yn ei wneyd yn ardderchog.

Mae y British Red Cross Society yn gwneyd gwaith ardderchog dros y cleifion—maent yn gofalu am y mân bethau sydd mor anwyl i bawb, ond y tu allan i'r drefn awdurdodol, sef cadachau, *writing papers*, *games*, a dillad, a lluaws o bethau eraill. Gofalant hefyd am fyned allan a llawer am *drives* mewn *motor cars*, neu am awr neu ddwy yn y *motor boat.*

Ni fyddai ysgrif fel hyn yn llawn heb air am waith y caplaniaid. Ar y dechreu nid oedd ond dau gaplan anghydffurfiol ar yr ynys—dau Weslead, ac am un o honynt, medraf ddweyd ei fod ymhlith fy

nghyfeillion mynwesol. Yr oedd pob caplan, ar wahan i enwad, yn gweithio'n ddiwyd ddydd a nos, feallai ar ol diwrnod caled yn ymweled a'r cleifion drwy'r dydd, tua chanol nos byddai'r alwad yn dyfod iddynt i ymweled â rhywun nad oedd gobaith iddo fyw, ac i weini cysur iddo yn ei olaf oriau—nid heb beryglon oedd y gwaith hyn pan yr oedd twymynon yn llanw yr awyr ag afiechyd. Erbyn hyn mae'n well ar y caplaniaid; ar ol i'r angen leddfu danfonwyd nifer o honynt o bob enwad yma, ac y maent yn gweithio yn ddyfal yn ein mysg er creu ysbryd cymdeithasol pur.

Mae mwyafrif Ymneillduwyr Cymru fu yma yn gleifion o'r Dardanelles mewn dyled i'r Wesleaid am eu llafur yn eu mysg, heb wahaniaeth enwad na chred.

Tua mis Awst diweddaf, cafwyd ymweliad oddiwrth ficer Caerffili, y Parch. Connop Price, caplan y Welsh Division—yr oedd yn bresenol yn nglaniad Suvla Bay. Oddiyno daeth yn ol i Malta, lle, ar ol ychydig ddyddiau, gwaelodd o'r *dysentery*. Gobeithio fod y gwr parchedig yn well erbyn hyn. Bu ei ymweliad a'r ysbytty hon, er ond am ddiwrnod, yn gynorthwy mawr i bob un a garai iaith y Brython. Boneddwr arall deilyngai barch pawb oedd y patriarch Ddeon o Henffordd, er ei bedwar ugain mlynedd. Yn mhoethder yr haul a'r afiechyd ymwelai yn aml a'i braidd. Cymerai ddyddordeb mawr yn ei fechgyn, fel y galwai bawb o'r Hereford Regiment. Beiddied neb yn ei wagder ymosod ar waith yr eglwys o bob enwad yn y rhyfel, ac fe wel fod y pwlpud yn medru rhoi dewrion addas i bob amgylchiad.

Mae llawer o son am y diwygiad crefyddol ar ol y rhyfel; gobeithio y ceir gwir ddiwygiad yn mhob peth a ogwydda tuag at ddaioni parhaus. Amheus yw os y gwelir mwy o grefydd ffurfiol, ond yn sicr fe welir mwy o grefydd "cwpan o ddwfr oer" nag erioed o'r blaen. Niwlog yw trefn y dyfodol, ond y dyddiau yma mae goleuni fel gwrid y wawr yn araf wasgaru'r niwl. Deued heddwch buan, os yn bosibl, ond heddwch ar ol cyflawni yr hyn a ddaethpwyd i'w gyflawni. Deued hwyr neu hwyrach.

BEN DAVIES.

Gorphenaf, 1916.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas yn Rhydygwin, Sir Aberteifi, Awst 1 a 2. Saif y capel mewn man tlws a phrydferth yn ymyl Dyffryn Aeron. Cafwyd ein breintio hefyd a thywydd dymunol, ac nid rhyfedd fod y pererinion Undodaidd wedi ymgasglu yn lluosog iawn. Cynrychiolid ein holl eglwysi nid yn unig gan y gweinidogion, ond hefyd gan leygwyr a'r gwragedd ffyddlon deimlant ddyddordeb dwfn yn yr achos. Diangenrhaid ydyw enwi, gan fod yr holl weinidogion Cymreig berthynant i'n heglwysi yn Morganwg a Cheredigion yn bresenol, gyda'r eithriad o'r Parch. T. Eric Davies, Pontypridd, yr hwn a gafodd ei rwystro gan amgylchiadau, yn nghyd a'r tri gweinidog ffyddlon ydynt bellach wedi ymneillduo o'r gwaith. Yr oedd hefyd y Parchn. T. Lloyd Jones, Lerpwl ac E. Gwilym Evans, B.A., Dukinfield yn bresenol

yn ol eu barfer. Dyma ddau o leiaf, er wedi croesi Clawdd Offa nad ydynt wedi anghofio'r graig o'r hon y'u naddwyd. Da oedd genym hefyd weled y Proff. Moore o Gaerfyrddin, Parchn. B. Carolan Davies, (A.), a E. Glyn Edwards, (B.), ac eraill.

Digon ydyw dweyd fod yr adeilad lawer yn rhy fychan i gynwys y gynulleidfa, a gwell fuasai pe wedi trefnu cynhal y gwasanaeth yn yr awyr agored. Dechreuwyd y cyfarfodydd nos Fawrth, drwy i'r Parchn. J. C. Davies, Cefn ac E. R. Dennis, Aberdar bregethu yn Rhydygwin, ac E. T. Evans, Aberdar ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen bregethu yn nghapel Ciliau. Dechreuwyd y gwasanaeth yn yr olaf gan Mr. J. M. Howell, Y.H., Aberaeron, ac yn y blaenaf gan y Parch. B. Carolan Davies, Tynygwndwn. Boreu dydd Mercher cyfarfu pwyllgor blynyddol y Gymdeithas.. Gweler y manylion ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cafwyd ymdrafodaeth ddyddorol ar wahanol byngciau perthynol i ni fel cyfundeb ac hyderwn y bydd y cyfan er daioni a lles yr eglwysi. Dechreuwyd gwasanaeth y boreu gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, ac yna traddododd y Llywydd, Mr. Josiah Jones, Garthowen ei anerchiad am y flwyddyn. Gweler yr anerchiad yn y rhifyn hwn. Aeth Mr. Jones drwy ei waith yn ardderchog, a chlywsom iddo gael rhagor nag un gwahoddiad i roddi gwasanaeth cyffelyb yn ein capeli. Pasiwyd pleidlais wresog o ddiolchgarwch iddo am ei anerchiad ar gynygiad ei hen weinidog, y Parch. John Davies ac eiliad y Parch. Simon Jones, B.A., yna pregethwyd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Er wedi pasio ei bedwar ugain mlwydd, da oedd genym weled fod ei yspryd mor fyw, ei draddodiad mor effeithiol a'i genadwri mor rymus ag erioed. Hir y parhao.

Yn y prydnawn dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. Lewis Williams, ac yna neillduwyd rhan dda o'r amser i roddi croesaw i'r Parch. D. Cellan Evans fel gweinidog Rhydygwin a'r Ciliau. Ni ddechreuwn enwi y rhestr hir fu'n siarad, na son am y pethau da ddywedwyd am y gweinidog newydd. Cariai pawb yn ddieithriad eu dymuniadau da i'r gweinidog a'r eglwysi. Credwn fod yr uniad yn un hapus, ac hyderwn o dan fendith y Tad goreu. Wedi hyn pregethwyd yn ei ddull wreiddiol ei hun gan y Parch. T. Lloyd Jones, Lerpwl, un o blant yr eglwys. Trefnwyd hefyd fod y Parch. Gwilym Evans i'w ddilyn, ond gan fod yr amser wedi ei gymeryd i fyny gan y rhan gyntaf o'r cwrdd barnwyd mai gwell oedd gorphen ar ol Mr. Jones. Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. E. Glyn Edwards, (B.), Cwrtnewydd a phregethwyd yn rymus ac effeithiol gan y Parchn. Simon Jones, B.A., Abertawe a D. G. Rees, Gellionen. Gobeithio y bydd yr ymweliad hwn o eiddo'r Gymdeithas a Rhydygwin, ar ddechreuad gweinidogaeth y brawd ieuanc Cellan Evans, yn gyfrwng ysprydiaeth newydd i'r ffyddloniaid yno, ac y ceir ffrwyth toreithiog mewn gwasanaeth llwyrach a chymeriadau wedi eu cysegru i'r uwchaf. Gwnaeth y cyfeillion yn Rhydygwin, yn enwedig y gwragedd a'r merched ieuainc serchog, bobpeth er croesawu a diwallu anghenion y dieithriaid o fewn y pyrth. Diolch yn gynhes iddynt.

TATHOS.

Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol y Gymdeithas yn Rhydygwin, boreu Mercher, Awst 2, 1916, y Llywydd, Mr. Josiah Jones, Garthowen yn y gadair. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y cwrdd diweddaf. Pasiwyd fod Mantolen y Trysorydd i gael ei harchwilio a'i chyhoeddi fel arfer. Darllenodd yr Ysgrifenydd ei adroddiad a phasiwyd iddo gael ei gyhoeddi yn YR YMOFYNYDD. Cyflwynwyd adroddiad y pwyllgor arianol a phasiwyd y canlynol :—

£20 at Drysorfa y Llyfr Emynau a Thonau ; Panteg £5 ; Capelycwm a Chaeronen tuag at *Supplies* £2 yr un ar yr amodau arferol. Golygydd YR YMOFYNYDD £12. Ail-etholwyd y Llywydd am flwyddyn arall, ac hefyd yr Is-lywydd, y Trysorydd, yr Ysgrifenydd a'r Archwilwyr. Pasiwyd fod y pwyllgorau i gael eu hethol am dair blynedd, fel y canlyn.

Pwyllgor Arianol—Parchn. John Davies, R. C. Jones, D. G. Rees, Mri. David Davies, Llanbedr, D. R. Davies, Cwrtnewydd, D. Hughes, Rhydygwin ynghyd a'r swyddogion.

Pwyllgor Cynghorol — Parchn. Lewis Williams, E. O. Jenkins a'r Ysgrifenydd.

Pwyllgor Coleg Caerfyrddin—Parch. John Davies, Mr. W. S. Jones, M.A., a'r Ysgrifenydd.

Pwyllgor Gweithiol—Yr un rhai.

Buwyd yn ystyried pwnc ad-drefniad cyfarfodydd y Gymdeithas a phasiwyd glynu wrth y drefn bresenol oddigerth (1) fod bore yr ail ddydd i gael ei neillduo yn llwyr i bwyllgorau y Gymdeithas, y rhai fydd yn cael eu gwneyd i fyny o gynrychiolwyr yr eglwysi, &c. (2) fod cwrdd yr Hydref i gael ei adferyd.

Derbyniwyd adroddiad yr Is-Bwyllgor fu'n gwneyd ymchwiliad mewn perthynas i weithredoedd ein capelau, a phasiwyd fod y swyddogion i gael eu hawdurdodi i bwrcasu cist-ddiogel (*safe*) ac arni yr adysgrif ganlynol—'Eiddo Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.' Fod y gist i fod yn ngofal y Trysorydd, ac i wahodd yr eglwysi i osod eu gweithredoedd, &c., ynddi. Penderfynwyd estyn gwahoddiad cynhes i'r British and Foreign Unitarian Association i gynal rhai o gyfarfodydd yr Hydref yn Sir Aberteifi, ac fod y Gymdeithas i ddwyn y draul, a'r Pwyllgor Gweithiol i ddewis y lle, ac i wneyd y trefniadau angenrheidiol. Buwyd yn ystyried y priodoldeb o gyhoeddi Llyfr Emynau a Thonau at wasanaeth ein Hysgolion Sul, a phenderfynwyd gohebu yn mhellach a Chymdeithas yr Ysgol Sul yn Llundain, ac i alw yn nghyd y gweinidogion ac un cynrychiolydd oddiwrth bob eglwys er ystyried y mater, a gwneyd adroddiad i Bwyllgor y Gymdeithas. Ar gynygiad yr Ysgrifenydd, ac eiliad y Dr. D. J. Davies, pasiwyd y penderfyniad canlynol—

'Fod y cyfarfod blynyddol hwn o Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru, yn dadgan ei argyhoeddiad o iawnder achos ein gwlad, a'n hedmygedd o'r ysbryd hunanaberthol ddangosir gan y gwŷr ieuainc a'u hamddiffyna, tra ar yr un pryd yn dadgan ein cred yn nghysegredigrwydd cydwybod, ac yn dymuno gwrthdystio yn erbyn unrhyw anghyfiawnder ac anfri ddioddefir gan wrthwynebwyr cydwybodol i wasanaethu yn y fyddin.

T. ARTHUR THOMAS,

Ysgrifenydd.

ADRODDIAD BLYNYDDOL YSGRIFENYDD Y GYMDEITHAS.

Y mae bellach ddwy flynedd wedi myned heibio er pan dorodd allan y rhyfel mwyaf mewn hanes—y mwyaf distrywllyd a diameu y mwyaf ei ganlyniadau. Nid oes odid i fwthyn na phalas nad ynt wedi ei deimlo ; mae'r mwnwr a'r miliwnydd, y tlawd a'r cyfoethog, wedi cerdded megis ysgwydd, wrth ysgwydd drwy brofiadau na ddychmygwyd o bosibl am danynt erioed. Os y bu yna ar un adeg yn y wlad hon, neu mewn unrhyw un o'r gwledydd eraill, rywrai ag oedd yn dda ganddynt ryfel, y mae profiad y ddwy flynedd hyn wedi eu troi nes y bo yn gâs ganddynt ryfel. Yn ngwyneb y brwydro a cholli bywydau, y goreu a'r dewraf, y weddi ddyddiol ddylifa dros ein genau yw, "Pa hyd, Arglwydd, pa hyd?" Nid oes genym ond dymuno a gweddio y sylweddolir y gobaith osodwyd allan gan ein cydwladwr

enwog, yr Ysgrifenydd Rhyfel,—"Fod y wawr yn tori ar y gorwel draw," ac y daw trefn eilwaith tros y tir.

Yn y byd crefyddol yn gyffredinol ni chlywir ond swn cwyno a grwgnach am ddifaterwch y bobl sydd ar ol, a dygir cyhuddiad weithiau fod crefydd wedi bod yn fethiant, a gwneir ymdrechion i geisio attal y llif materyddol sydd yn bygwth y wlad.

Yn ein cyfundeb ein hunain, nid oes yna ddim eithriadol wedi digwydd fel ag i dynu sylw neillduol atto. Mae y rhyfel yn ddiau wedi effeithio arnom ninnau fel ag ar eraill, ac y mae y rhagolygon weithiau yn ddigon i barlysu pob ymdrech ac i ysigo pob penderfyniad. Yn ngwyneb yr aberthau mwyaf wneir gan ein pobl ieuainc, na atto Duw ini fod yn anffyddlon i aberthau llai yn niegelwch ein cartrefi clyd. Dylasem fod yn fwy effro nag erioed gyda phethau berthynant i'n hawddfyd tragwyddol.

Y mae yn llawenydd genym fod pwlpudau yr oll o'r eglwysi berthynant i'r Gymdeithas yn Ngheredigion a Morgannwg yn cael eu llanw gan weinidogion cymharol ieuainc erbyn hyn, a gweinidogion ni a obeithiwn wedi eu bedyddio a'r Ysprydd Glan, ac yn barod i wneud yr oll fedrant yn y gongl hono o'r winllan lle y llafuriant. Yn ystod y flwyddyn, mae y Parch. Lewis Williams wedi ymsefydlu yn Alltyplaca a Chapelybryn, y Parch. E. R. Dennis yn H.D.C., Aberdar, ac y mae yn hyfrydwch genym heddyw allu croesawu y Parch. D. Cellan Evans i Rhydygwin a Chiliau. Dymuna y Gymdeithas fendith Duw arnynt yn eu meusydd newyddion, ac y dychwelont lawer o gyfeiliorni eu ffyrdd a byw.

Ni fuasai adroddiad fel hwn yn gyflawn heb gyfeiriad at ymddeoliad y Parch. John Davies, Alltyplaca, o'r weinidogaeth, ar ol cyfnod mor hir a chyfoethog. Da genym weled ei fod yn dal mor heinyf ei gorph ac mor wresog ei ysprydd, a gellir dweyd am dano megis y dywedwyd am arall, "ni thywyllasai ei lygad ac ni chiliasai ei ireiddra ef." Goleued yr Arglwydd weddill ei daith.

Nid ydyw y rhagolygon yn ddisglaer ar hyn o bryd parthed myfyrwyr ieuainc ar gyfer y weinidogaeth. Y mae gofynion milwrol y fath fel na fedrwn ddisgwyl iddi fod yn wahanol. Y mae yn dda genym fod un dyn ieuanc, sef Mr. John D. Jones, Llanddewi, wedi ei dderbyn, a bwriada ddechreu ar ei yrfa golegol yr hydref nesaf, os na thorir eto ar draws ei gynlluniau.

Drwg iawn genym fod mater y Llyfr Emynau a Thonau yn aros lle y bu yn awr am rhyw ddwy flynedd. Credwn nad yw yr anhawsder sydd wedi codi ond un dibwys iawn yn ngwyneb yr angen mawr sydd arnom am Lyfr. Am ba cyhyd mae y *deadlock* hwn i barhau nis gwn, ond gwn gymaint a hyn, os na chawn Lyfr Emynau heb fod yn faith iawn, fe ddioddefa'r eglwysi, os nad ydym eisoes wedi dechreu ei brofi. Chwythed rhyw ddeheuwynt cryf, fel y byddo i bob anhawsder gael ei yru i ffwrdd.

Cefais y pleser o fod yn bresenol eleni yn yr oll o'n cymanfaoedd yn Sir Aberteifi, ac yr oedd yn galondid mawr i ganfod arwyddion bywyd yn mhob cyfeiriad. Dengys fod yna ddyddordeb mawr yn cael ei deimlo yn ngwaith yr Ysgol Sul, o leiaf, gan ychydig. Yr ydym yn mhell er hyny o fod yr hyn y gallasem fod, pe ond ychydig o ysprydd y peth byw yn ein meddianu oll. Y mae ein Cymanfa Ganu cystal ag y bu erioed, yn glod i'n cantorion ac yn gredyd i Bwyllgor y Gymanfa.

Yr ydym wedi gwneyd ymgais eleni i wneyd "cofrestr" (*Inventory*) o weithredoedd ein Capelau, ac yr ydys wedi bod yn llwyddianus i wneuthur un gweddol gyflawn. Dengys yr adroddiad fod angen am osod y gweithredoedd mewn rhyw un fan diogel, lle na bydd perygl iddynt fyth fyned ar goll. Efallai y caiff y mater hwn ystyriaeth bellach heddyw eto.

Dengys fod o'n blaenau amser pryderus, ac amser wna brofi i'r gwaelodion yr hyn sydd ynom, a gawn ni fod yn barod ac yn effro, i droi'r pryder, y profedigaethau, a'r dioddefaint, i gyd yn foddion gras, ac i hyrwyddo'r Deyrnas nad yw o'r byd hwn.

———

PWYLLGOR YR YSGOL SUL.

Cynhaliwyd yn Rhydygwin, Awst 2. Llywydd y Gymdeithas, Mr. Josiah Jones, Garthowen, yn y gadair. Oherwydd fod rhai heb dalu am y Gwersi, ac fod amryw o'r ysgolion heb anfon eu casgliad blynyddol, methwyd a chyflwyno y fantolen am y flwyddyn. Pasiwyd fod yr ysgrifenydd i adgofio y rhai sydd heb dalu am y Gwersi, ac i anfon at yr ysgolion sydd heb wneyd casgliad am y flwyddyn. Pasiwyd fod y fantolen, ar ol derbyn yr oll o'r arian, i gael ei archwilio a'i chyhoeddi. Er mwyn i'r ysgrifenydd a'r trysorydd i fod yn agos at eu gilydd, etholwyd Mr. D. R. Davies, Ysgol y Cyngor, Cwrtnewydd, yn drysorydd, yn lle Mr. D. Saunders Davies, Felinfach. Pasiwyd cael arholwr cyffredinol yn Sir Aberteifi ac yn Sir Forganwg. Appwyntiwyd Mr. J. R. Thomas, Ysgol y Cyngor, Pontshân, dros Sir Aberteifi, a phasiwyd fod un bunt i gael ei thalu iddo am ei wasanaeth. Gadawd i ysgolion Sir Forganwg i ddewis eu arholwr eu hunain. Pasiwyd fod Gwersi newydd i gael eu dwyn allan ar gyfer Safonau I. a II., ac i gael eu parotoi gan Mr. D. R. Davies, Cwrtnewydd, a'r Parch. L. Williams.

PRIODAS.

Awst 25, yng Nghapelybryn, gan y Parch. J. Davies, yng ngwydd y Cofrestrydd, unwyd mewn priodas Mr. Josiah Richard Jones, Brynyreglwys, a Miss Mary Jones, Brynllefrith—Uniad y 'Bryniau.'

MARWOFION.

Gorphenaf 10, yn 26 mlwydd oed, bu farw ar faes y gad yn Ffrainc, Corporal W. Thomas Howell Davies (1st London Welsh, 15th Royal Welsh Fusiliers), trydydd ac anwyl fab y diweddar Mr. a Mrs. Davies, Post Office, Felinfach. Ymunodd a'r Fyddin Brydeinig yn wirfoddol, ac fel miloedd o fechgyn Cymru, arweiniodd llwybr dyledswydd ef i ffosydd Ffrainc, lle y rhoddodd ei fywyd i lawr yn aberth byw dros ei wlad a'i genedl, a thros ddynoliaeth newydd y dyfodol. Gwr ieuanc tra meddylgar oedd Tom—naturiol a dirodres ei fuchedd, ac un a hoffid yn fawr gan ei gyfeillion, ac yn mhlith y rhai y teimlwyd siomedigaeth chwerw wedi clywed o'i farw ef; ac yn wir, onid trist a dolurus i bob calon fyfyrgar ydyw darllen hanes galanas y ddwy flynedd ddiweddaf? 'Pa hyd,

Arglwydd, pa hyd?' Y Sul diweddaf, Awst 20fed, yng Nghapel Rhydygwin, cynhaliwyd gwasanaeth coffadwriaethol i'n brawd ymadawedig. Dechreuwyd gan y Parch. B. Carolan Davies (A.), Tynygwndwn, a phregethwyd gan y gweinidog oddiar y geiriau, 'wedi marw yn llefaru eto' (Hebreaid 11 : 4). Daeth tyrfa neillduol o luosog yng nghyd, ac yr oedd arni arwyddion cydymdeimlad pur a'r ddwy chwaer, a'r tri brawd anwyl (dau o'r rhai ydynt ar faes y gâd) sydd yn galaru o golli brawd cywir a ffyddlon. Iddynt hwy, ac i'r holl berthynasau, eiddunwn yn yr ystorm hon eto nodded y Tad goreu, a chyfran helaeth o'i gariad ef i ariannu eu nhôs ddu.

'Gadawn i Dduw esbonio'i hun,
Trŷ ef y nôs yn ddydd.'

GORPHENAF 25, John Williams, Clettwr Hall, Pontshan, Llandyssul, yn 69 oed. Gadawodd mewn galar fab, pedair merch, a llawer o berthynasau ereill. Teiliwr oedd o alwedigaeth, ac felly aeth yn adnabyddus i gylch eang. Yr oedd yn ddyn diwyd a darbodus, ac yn dad a ymrodd dros ei blant. Yr oedd yn neillduol o ffraeth a pharod ei reswm, ac ar gyfrif hyny byddai llawer yn galw i'w weled heblaw ei gwsmeriaid. Yn ystod blynyddoedd diweddaf ei oes dioddefodd yn enbyd oddiwrth y gymalwst, a dioddefodd yn hynod o amyneddgar. Claddwyd y Gwener canlynol yn mynwent Capel Waunifor. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Roderick (M.C.), a E. O. Jenkins.

GORPHENAF 28, yn 72 mlwydd oed, Mary Davies, Blaencriborfach, Llandyssul. Gwraig dawel, garedig, oedd yr ymadawedig, ac iddi lu o gyfeillion ar gyfrif y rhagoriaethau lawer berthynai i'w chymeriad. Gweithiodd yn galed tra y gallodd i ddwyn ei theulu i fynu, ac i ymgeleddu ei hwyrion, ond gwnaeth fwy na hyn, rhoddodd esiampl deilwng o'u blaen yn y pethau goreu, sef mewn cariad a chydymdeimlad. Er mai mewn cylch isel a chyfyngedig y darfu iddi droi, ac anhawsderau'r daith yn dryfrith ar ei llwybr, eto anfynych y buasai yn cwyno a grwgnach; yr oedd y wên siriol ar ei gwyneb a'r gair caredig yn dod dros ei genau, yn ddangoseg, fod yna rywbeth yn fwy na'r amgylchiadau. Claddwyd yr hyn oedd farwol o boni yn Pantdefaid, lle y cyrchai er yn blentyn, y dydd Mawrth dilynol i'w marwolaeth. Gwasanaethwyd yn y tŷ a'r capel gan y gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch. Tom Davies, Horeb. Deuparth ei hyspryd ddisgyno ar y plant, yr wyrion, a pherthynasau eraill ydynt yn galaru o'i cholli.

AWST 1, yn dra disymwth, yn 63 oed, Eleanor Lloyd, anwyl briod Josiah Jones, Nantcwmgwili, plwyf Llanllawddog, Sir Gaerfyrddin, a merch y diweddar Griffith Jenkins, Gof, Cwrtnewydd. Gadawodd ei phriod, pedwar o blant, amryw ŵyrion, brodyr a chwaer, i alaru'n ddwys ar ei hol. Claddwyd ym mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur, yn y tŷ, gan Ficer y plwyf, y Parch. Mr. Herbert, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. J. Davies gyda chynorthwy caredig y Parch. L. Williams.

"Clywais siarad clywais ddwndro,
Clywais ran o'r byd yn beio;
Erioed ni chlywais neb yn datgan
Fawr o'i hynod feiau'i hunan."

MANION AC HANESION.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR.—— Dydd Llun, Awst 7fed, y cynhaliwyd Te Blynyddol yr Ysgol Sul. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mrs Llewelyn, y Bwllfa, ac nid dyma y tro cyntaf mae y foneddiges garedig hon wedi cofio am y plant—dyfodol yr eglwysi. Yr oedd pobpeth o'n tu y tro hwn—yr hîn yn hynod o ddymunol i ateb yr achlysur. Cynhaliwyd y Te ar gae Maesgwyn, drwy garedigrwydd Mr. Howells a'r teulu, y rhai ydynt bob amser yn dangos eu parodrwydd i ni, ac yn aelodau ffyddlon o'n Ysgol Sul. Hapus iawn oedd gweld y plant megis wyn bach ar y dolydd yn chwareu. Yr oedd lluaws wedi dyfod ynghyd, a phawb ar eu goreu i wneud pobpeth a allont i ddyfyru yr ieuainc.

BRONDEIFI. — Ar brynhawn Sul, Awst 6fed, daeth cynulleidfa Brondeifi at ei gilydd yn gryno er dangos ei pharch i'w chyn-weinidog, y Parch. R. C. Jones, yr hwn fu'n gwasanaethu am wyth mlynedd a deugain. Cymerwyd y gadair gan y gweinidog, a chyflwynodd Mr. G. J. Davies, Penlan, "anerchiad hardd" ynghyd a chôd o aur i Mr. Jones ar derfyn ei weinidogaeth. Taflodd Mr. Davies gipdrem frysiog ond doniol tros hanes yr Eglwys o Dy'nyrheol i Brondeifi, gan nodi allan ymdrechion Mr. Jones o blaid Crefydd Rydd yn y dref, o blaid addysg a moes. Siaradwyd ymhellach gan y Parch. J. Cararra Davies, Cefncoed, un o blant Mr. Jones, ac hefyd gan Mr. E. D. Rees, is-ysgrifenydd Bwrdd y Gwarcheidwaid, yr hwn a ddug dystiolaeth uchel i unplygrwydd ei gymeriad. Diolchodd Mr. Jones yn garedig i'w gynulleidfa am ei charedigrwydd a'i dymuniadau da. Ymhellach, cyflwynodd Miss Minnie Williams, Postgwyn, nifer o lestri arian i Mrs. Jones fel dangoseg fechan o barch yr eglwys tuag ati. Ar gynygiad Mr. D. Jones, Jeweller, yn cael ei eilio gan Mr. Timothy Evans, Dolycoed, pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r Parch. D. J. Williams, o'r Iwerddon, am ysgrifenu'r anerchiad, ac i'r gweinidog presenol am wylio'i Chymraeg.—— Casglodd Eglwysi Brondeifi a Chaeronen £13 7s. 6c. tuag at Ysbytty Abertawe, fel y gallont yn awr anfon nifer o gleifion yn rhydd yno.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL.—Mae yn bleser mawr genym allu llongyfarch "Cledlyn," sef Mr. D. R. Davies, Ysgol y Cynghor, Cwrtnewydd, ar ei waith yn cipio haner y wobr am y Fugeilgerdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth. Ni fedrwn longyfarch y brawd arall fu'n fuddugol, ac yn yr hwn y teimlwn ddyddordeb, am ei fod wedi ei alw i gael gwobr uwch. Yr ydym yn cyfeirio at y diweddar Mr. J. D. Lewis, cyhoeddwr yr YMOFYNYDD. Ei draethawd ef oedd yr un buddugol ar "Llenorion Sir Aberteifi." Yr oedd teilyngdod y traethawd mor uchel yn marn y beirniaid fel y dyblwyd y wobr i ddeg gini. Y mae yn dystiolaeth bellach i ddiwidrwydd a llafur y llenor amryddawn J. D. Lewis.

GWEDDI YR ORSEDD.

Dyro, Dduw, Dy nawdd ;
Ac yn nawdd, nerth ;
Ac yn nerth, deall ;
Ac yn neall, gwybod ;
Ac yngwybod, gwybod y cyfiawn ;
Ac yngwybod y cyfiawn, ei garu ;
Ac o garu, caru pob hanfod ;
Ac yn mhob hanfod, caru Duw ;
Duw, a phob daioni.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1915.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz :—			
£2 10s. 0d. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1916	360,352	4	8
„ Balance of Profit and Loss Account	113,597	15	2
	9,254,742	9	10
„ Current, Deposit and other Accounts	147,750,702	0	6
„ Acceptances on account of Customers	9,157,601	11	9
	£166,163,046	2	1

	£	s	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	30,881,200	14	6
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,651,257	17	9
„ Investments :			
War Loans, and other British Government Securities ...	33,946,384	8	2
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	481,040	5	8
British Railway Debenture and Preference Stocks	2,400,295	19	9
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	962,062	7	6
Sundry Investments	1,039,650	15	7
„ Bills of Exchange	9,961,545	13	9
	88,323,438	2	8
„ Advances on Current Accounts, &c....	65,921,541	11	9
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	9,157,601	11	9
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,760,464	15	11
	£166,163,046	2	1